



Ynni Cymunedol Cymru'n ymrwmo at weithio dros bontio'n gyfiawn at garbon sero net.

Cyd-destun

Mae ein system ynni bresennol wedi'i chanoli a'i rheoli gan endidau masnachol. Nod creiddiol Ynni Cymunedol Cymru yw i gefnogi a chyflymu'r pontio tuag at system ynni teg, cyfiawn a di-garbon sydd wedi arwain gan y gymuned. Dylai cymunedau Cymru nid yn unig siapio'r system ynni drwy gyfranogi ynddi, ond cadw'r buddion o'r newid hwn.

Hanes o ddiodefaint yw hanes Cymru ac ynni. Mae cyswllt amlwg rhwng y tlodi gweladwy a chudd sydd yn rhan o gynifer o'n cymunedau ni heddiw, a'r methiant o gadw buddion ynni'r gorffennol yn ein cymunedau. Mae datgarboneiddio'n cynnig cyfle i ni beidio ailadrodd camgymeriadau'r dyfodol.

Ceir targedau gan y llywodraeth sy'n ein hymrwmo ni at gyrraedd allyriadau sero net mewn ynni. Mae'r targedau hyn yn dilyn aneirif cynhadleddau COP, adroddiadau gwyddonol ar newid hinsawdd a phwysau cyhoeddus / gwleidyddol.

Mae Ynni Cymunedol Cymru a'r aelodau rydym yn eu cynrhychioli'n ymrwmo i weithio gyda'r ddwy Lywodraeth er mwyn gwireddu eu targedau datgarboneiddio.

Beth sydd angen newid?

Does dim modd i bontio'n gyfiawn heblaw bod pobl a chymunedau yng nghanol ein system ynni. Nid yw hi'n bosib i bontio'n gyfiawn o fewn y model ynni presennol. Mae'r holl system angen newid.

Pontio cyfiawn - diffiniad

I Ynni Cymunedol Cymru, mae pontio'n gyfiawn yn galluogi pobl i ddefnyddio adnoddau naturiol lleol i gynhyrchu a masnachu egni o asedau cynhyrchu, storio a dosbarthu ynni sydd o dan berchnogaeth gymunedol.

Mae yna rhwystrau sy'n atal masnachu lleol ar hyn o bryd. Byddai pontio at system sy'n goresgyn y rhwystrau hyn – o ddeddfwriaeth y farchnad a isadeiledd dosbarthu (e.e. National Grid, cwmni preifat sydd yn ceisio gwneud elw) - yn lleihau'n aruthrol yr anghyfiawnderau sydd yn y system ynni bresennol.

Beth yw cyfiawnder ynni?

Mae'r argyfwng costau byw diweddar wedi'i achosi gan brisiau ynni, ac wedi amlygu'r



Ynni
Cymunedol Cymru
Community Energy
Wales

anghyfiawnderau sydd yn y system ynni bresennol. Tra bod nifer o gartrefi wedi wynebu cynnydd anfforddiadwy mewn prisiau ynni, a'u taflu i mewn i dlodi tanwydd, mae rhai o'r corfforaethau mwyaf yn y system ynni wedi gweld elw anferthol. (Centrica er enghraifft, y cwmni sy'n eiddo ar British Gas, wnaeth adrodd elw o £3.3bn ar gyfer 2022, neu Shell wnaeth dros £32bn o elw, neu BP wnaeth £23bn o elw ar gyfer yr un flwyddyn).

Pobl ddylai gweld y buddion o'r effeithlonrwydd sy'n codi o dechnoleg, balansio'r grid a lleihad mewn defnydd ar adegau prysur (Mae Energy Local yn esiampl o gysyniad byddai'n gallu gwneud hyn o dan amodau masnachol gwahanol). Gyda mynediad i'w data eu hunain, dylai pobl allu gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o'r isadeiledd lleol drwy gysylltu eu defnydd gyda'r ynni sydd ar gael. Bydd pontio'n deg yn meddwl cyfiawnder wrth ddsbarthu ac yn y cyfundrefnau sy'n amgylchynu hynny. Ynghyd â buddio o gynhyrchu a dosbarthu ynni dan berchnogaeth gymunedol, rydym eisiau i ddinasyddion gymryd rhan yn y penderfyniadau sydd angen eu gwneud am ddyfodol, a'r llywodraethant fydd yn codi o hynny. Mae cael pobl yn ymwneud â'u mudiadau ynni cymunedol lleol yn helpu i wneud hyn, ac rydym yn gweithio i gael rhagor o bobl yn rhan o'r mudiad.

Yn ogystal, mae'r sector ynni cymunedol yn mynd i'r afael â chyfiawnder ynni a chymdeithasol drwy gronfeydd budd cymunedol sy'n ymaten i anghenion lleol. Mae'r prosiectau cymunedol sy'n cael eu hariannu'n aml yn sbarduno mentrau cynaliadwyedd lleol eraill o fewn cymunedau.

Marchnad ynni â dwy haen

Mae Ynni Cymunedol Cymru'n cydnabod bod angen prosiectau o raddfa fawr angen cael eu datblygu er mwyn cyrraedd sero net. Bydd rhain angen buddsoddiad anferthol ac isadeiledd trosglwyddo newydd.

Fodd bynnag, er mwyn pontio'n deg, rydym yn credu y dylai datblygu marchnad ynni â dwy haen, gydag ynni cymunedol (haen un) yn darparu y mwyaf o ynni lleol ag sy'n bosibl. Mae ynni sy'n cael ei gynhyrchu'n lleol i'r man y mae'n cael ei gynhyrchu'n gallu cael ei gynhyrchu am bris tipyn yn llai ac mewn dull lle bydd newid ymddygiad yn lleihau'r galw amdano. Bydd yr "haen un" hwn yn gymorth wrth adeiladu gwytnwch a diogelwch ynni i mewn i'n system ynni.

Byddai 'Haen dau' ar gyfer y sector ynni adnewyddadwy masnachol mwy a'i ddatblygiadau. Yn wyneb yr argyfwng hinsawdd, mae'r haen hon angen cael ei datblygu gyfochor a haen un, ond ni ddylai haen dau allu ymyrryd ar rym democrataidd haen un.

I bobl a chymunedau i allu gymryd rhan mewn datblygiadau haen un a haen dau ar delerau cyfartal, bydd angen i esiamplau o brosiectau cydberchnogaeth rhwng cymunedau lleol a datblygwyr ynni adnewyddadwy mawr esblygu'n gyflym i sicrhau'r elfen hon o bontio'n gyfiawn.



Ynni
Cymunedol Cymru
Community Energy
Wales

Partneriaethau cyhoeddus / cymunedol

Bydd mudiadau ynni cymunedol yn gallu gosod dulliau o gynhyrchu ynni ar raddfa fwy pe bai cyrff cyhoeddus yn ymrwymo i brynu eu hynni oddi wrthynt. Dylai cynghorai lleol, Llywodraeth Cymru a chyirff cyhoeddus eraill flaenoriaethu caffael ynni cymunedol a chydnabod gwerth ychwanegol ein sector. Mae'n bosib gwneud hyn drwy gytundeb prynu ynni, contract llawes a / neu cytundeb Ynni Lleol ar raddfa fawr.

Diogelwch Ynni

Rhaid i bobl a chymunedau cael y cyfle i amddiffyn eu hunain rhag natur anwadal y farchnad ynni rhyngwladol drwy gynhyrchu a masnachu ynni yn lleol ar brisiau hir dymor, teg a dibynadwy (gwneud y mwyaf o haen un). Mae mynediad i ddata ynni yn grymuso pobl i ddewis faint o'r ynni haen dau drytach i ddefnyddio, a phryd.

Cysylltiadau gyda meysydd polisi eraill

Mae ynni yn croestorri ac yn cysylltu gyda nifer o feysydd polisi eraill – er enghraifft – tai, trafniadaeth, defnydd tir a chynllunio, mynediad at fud natur a adnoddau naturiol eraill yn gysylltiedig ag iechyd a systemau bwyd. Bydd cysylltu a deall effeithiau pontio'n gyfiawn ar y meysydd polisi ehangach hyn yn hollbwysig ar gyfer llwyddiant.

Lleihau defnydd ynni cartref

Mae angen gosod pypiau gwres ac ôl-osod tai yn gyflymach a chyda'i gilydd, ynghyd â hybu ymwybyddiaeth o leihau defnydd ynni. Rhaid gosod retrofit a safonau tai gwell o fewn rhaglen bolisi er mwyn pontio'n deg. Dylid dechrau'r broses hwn drwy fynd i'r afael â'r tai gwaethaf, a thargedu'r grwpiau sydd angen y mwyaf o gymorth yn gyntaf.

Gwneud yr hyn sy'n bosib

Yn nifer o wledydd Ewrop, mae'n bosib i ynni cymunedol ddarparu egni i dai lleol yn uniongyrchol. Mae Eco Power yng Ngwlad Belg yn esiampl dda o'r hyn sy'n bosib. Yno, mae'r gymuned yn eiddo ar osodiadau gwynt a solar, gan ddarparu egni i 50 mil o gwsmeriaid sydd â pherthynas gref gyda effeithlonrwydd ynni.

Byddai'r gallu i fasnachu ynni cymunedol yn newid anferthol i'r sector ynni cymunedol. Rydym yn gofyn i gefnogwyr i ymuno â'n mudiad o ysgogwyr ynni cymunedol er mwyn helpu ni i newid y modur i wneud hyn. Ymunwch â'n rhwydwaith RhanNi yma: [RhanNi](#)